Y broses ar gyfer adaseiniad yr hawliau rhaglenni gan S4C

Rhagarweiniad:

Yn dilyn penderfyniad S4C i gynnig adaseiniad yr hawliau mewn mwy nag ugain mlynedd o ddeunydd archif a rhaglenni yn ôl i'r sector annibynol, mae S4C nawr mewn sefyllfa i barhau gyda'r broses o adaseinio.

Mae'r penderfyniad i adaseinio yn cynrychioli symudiad sylweddol yn y cyfrifoldebau am ddatblygiad creadigol ac economaidd o S4C i'r sector annibynnol. Mae'n atgyfnerthu ymrwymiad S4C i weithio mewn partneriaeth gyda'r sector annibynnol er mwyn sicrhau bod unrhyw rwystrau i ymelwa ar ddeunydd archif a rhaglenni yn cael eu codi a chaniatau i'r sector gynhyrchu wneud y gorau yn fasnachol o'r cynnwys maent yn ei greu ym mha bynnag ieithoedd ac ar unrhyw lwyfannau newydd. Mae hefyd yn sicrhau bod y buddsoddiad cyhoeddus mewn rhaglenni yn fodd i hwyluso cyfleoedd masnachol i'r diwydiannau creadigol yn y dyfodol, gan gyfrannu at gryfhau sector gynhyrchu fydd yn medru cynnig rhagoriaeth greadigol i'r wahanol gynulleidfaoedd. Mae'r agwedd flaengar yn gyson â pholisi S4C o atgyfnerthu'r sector gynhyrchu ac annog twf economaidd.

Mae'r cyfrifoldeb am ddethol ac archifo'r holl raglenni a deunydd cysylltiol hefyd wedi ei drosglwyddo i'r sector annibynnol. Bydd hyn o gymorth er mwyn sicrhau fframwaith priodol ar gyfer logio a storio deunydd ac er mwyn rhoi cyfleoedd pellach i fanteisio ar y cyfleoedd masnachol yn yr holl gynnwys a grëir.

Mae S4C wedi trafod telerau gyda TAC a fydd yn sail ar gyfer adaseinio'r swmp sylweddol hwn o hawliau, ac mae crynodeb ar gael yma ac ar wefan TAC ("Crynodeb").

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r camau er mwyn gwneud cais am yr hawliau.

Y Ffurflen Gais:

Mae'r gwahoddiad i wneud cais am ad aseiniad yn yr hawliau ar agor i unrhyw gwmni cynhyrchu sydd yn credu eu bod yn cwrdd â'r gofynion a'r criteria sydd wedi eu nodi yn y Crynodeb. Dim ond gyda'r cwmni cynhyrchu aseiniodd yr hawlfraint i S4C yn wreiddiol y cynhelir trafodaethau. Ni chynhelir trafodaethau ag unigolion fu'n gweithio ar y cynyrchiadau na gyda chyn-gyfarwyddwyr, cyfranddalwyr na chyn-weithwyr cwmnïau nad ydynt yn bodoli bellach (am ba reswm bynnag). Lle bo comisiwn wedi symud o un cwmni i un arall, bydd S4C yn fodlon derbyn cais ar y cyd gan y cwmnïau os ydyn nhw wedi cytuno ymhlith ei gilydd ar bob pwynt.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais am yr hawliau, yna dylid gwneud y cais yn enw'r cwmni cynhyrchu. Bydd angen cwblhau'r Ffurflen Gais a'i gyrru at S4C. Mae'r Ffurflen Gais yn gofyn am restr y teitlau sydd i'w hawlio ynghyd â chadarnhad o'r materion cyfreithiol (e.e. cadwyn hawliau'r teitl a manylion eraill am yr hawliau) a statws y deunydd cyfleu (e.e. ym mha le y mae copïau o'r tapiau ac unrhyw wybodaeth berthnasol i'r rhaglen i'w canfod). Yn ogystal, bydd angen enwebu person cyswllt i ddelio gyda deunydd rhaglenni'r cwmni.

Ymholiadau ac ystyriaethau yn ymwneud â'r broses:

Rhagdybiwyd y bydd y cwmnïau wedi cadw copi diogelwch o'r tapiau a'r wybodaeth rhaglenni a bod y rhain ar gael i'r cwmni, gan y bydd y prif gopïau i aros yn S4C. Os nad hyn yw'r achos, yna bydd angen ystyried ymhellach y drefn o gopïo/rhannu'r tapiau ac unrhyw wybodaeth berthnasol, cyhyd ag y bod unrhyw ddeunydd neu wybodaeth ar gael yn rhwydd yn S4C. Gall S4C godi ffi am y copiau.

Lle mae'n bosib, dylai cwmnïau cynhyrchu gasglu cymaint â phosibl o wybodaeth o'u harchifon eu hunain. Fodd bynnag, bydd achosion lle bydd angen cymorth ychwanegol gan S4C er mwyn cwblhau'r ymchwil.

Lle mae'r ymholiad yn ymwneud â rhaglenni yna dylid cyfeirio'r cwestiwn at hawliau@s4c.co.uk yn y lle cyntaf.

Lle mae'r cwestiwn yn cyfeirio at waith papur, cyfleu gwybodaeth rhaglenni, hawliau a chytundebau bydd yn cael ei gyfeirio at yr adran Gyllid Rhaglenni a bydd cynrychiolydd yn ymateb gyda manylion. Lle mae'r cwestiwn yn cyfeirio at dapiau a deunydd gwasanaethau mynediad i deledu yna bydd i'w gyfeirio at y Llyfrgell. A wnewch chi sicrhau os gwelwch yn dda bod yr ymholiadau yn ddigon manwl i alluogi S4C i ymateb yn briodol.

Criteria asesu:

Bydd S4C yn asesu'r ceisiadau yn unol â'r criteria canlynol:

- Rhestr y rhaglenni yn y cais ac os ydynt yn gymwys am ad aseiniad (gweler y Crynodeb).
- Os yw'r gadwyn hawl yn y teitl ar gael.
- Y fframwaith sydd yn cael ei gynnig er mwyn manteisio ar yr hawliau yn yr archif, gan gynnwys ymwneud ag unrhyw bartneriaid. Derbynnir y bydd gwahanol fathau o weithgaredd ymelwa yn gofyn am fewnbwn gwahanol bartneriaid a/neu sefydliadau (e.e. ar gyfer gwerthiant a defnydd pellach, neu ar gyfer rheoli hawliau). Drwy gyd weithredu er mwyn sicrhau swmp critigol o ddeunydd rhaglenni fe ellir cryfhau sefyllfa cwmnïau unigol a chreu effaith buddiol ar y sector annibynnol.
- Manteision tebygol yr ad aseiniad ar gyfer datblygiad hir dymor a thwf economaidd y cwmni.
- Unrhyw sylwadau ar y cytundeb Aseiniad.
- Unrhyw griteria arall mae S4C yn ei ystyried yn berthnasol.

Gyrru'r Ffurflen Gais:

Dylid cwblhau'r Ffurflen Gais yn llawn a'i ddanfon mewn ffurf electroneg yn unig at S4C – cyfeiriad e-bost hawliau@s4c.co.uk - erbyn 17:15 ar ddydd Mercher y 4ydd o Hydref 2006. NI DDERBYNNIR UNRHYW GYNIGION AR ÔL Y DYDDIAD AC AMSER CAU. Mae S4C yn cadw'r hawl i beidio ac ystyried ffurflenni sydd yn anghyflawn. Dylid sicrhau bod yr ymatebion yn cynnig manylder digonol er mwyn caniatáu i S4C wneud asesiad o'r wybodaeth a'r cynlluniau.

Bydd angen i bob ymgeisydd fanylu (yn Adran 5 o'r Ffurflen Gais) os oes posibilrwydd o wrthdaro buddiannol rhwng yr unigolion sydd ynghlwm a'r cais gyda staff S4C er mwyn galluogi S4C i aseinio staff heb unrhyw gysylltiadau personol â'r cais.

Beth sydd yn digwydd ar ôl gyrru'r Ffurflen Gais at S4C?

Bydd pob Ffurflen Gais yn cael ei ddadansoddi yn erbyn y criteria asesu gan banel yn S4C. Gall S4C ofyn am ragor o wybodaeth er mwyn sicrhau bod yr holl ffactorau wedi eu hystyried.

Unwaith bydd yr asesiad wedi ei gwblhau a phenderfyniad wedi ei wneud, bydd S4C yn hysbysu'r prif gyswllt o'r canlyniad cyn diwedd mis Tachwedd 2006 fan hwyraf. Os yw S4C yn penderfynu peidio â chynnig adaseiniad o'r hawliau, bydd yn rhannu'r rhesymau dros ei phenderfyniad gyda'r cwmni aflwyddiannus.

Lle mae'r cais am adaseiniad wedi ei wneud ac wedi ei dderbyn, yna bydd yr adaseiniad yn cael ei weithredu ar delerau Cytundeb Ad aseiniad S4C onibai bod amrywiadau iddo wedi eu cynnig yn y Ffurflen Gais ac wedi eu derbyn yn ysgrifenedig gan S4C. Mae cytundeb Adaseiniad S4C ar gael yma. Cedwir S4C yr hawl i wneud newidiadau iddo ar unrhyw adeg cyn arwyddo.

Bydd S4C yn prosesu ceisiadau mor fuan ag sy'n bosib ond bydd rhaid gwneud hyn gyda'r nifer presennol o staff a chan gymryd i ystyriaeth hefyd y blaenoriaethau eraill sydd gan S4C felly ni fedr rhoi unrhyw warant y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn ffin amser benodol. Yn ddibynnol ar nifer y ceisiadau, efallai y bydd angen i S4C flaenoriaethu categorïau penodol o raglenni dros rai eraill a bydd hyn yn ol

disgresiwn S4C.

Ym mhob achos byd derbyn y cais am adaseiniad gan S4C yn amodol ar arwyddo'r Adaseiniad gan y ddau barti.

Noder os gwelwch yn dda:

Nid oes unrhyw orfodaeth ar S4C yn y pendraw i gynnig adaseinaid o'r hawliau mewn unrhyw neu'r holl raglenni a defnydd cysylltiol a bydd y penderfyniad yn ol disgresiwn y panel, fel penderfyniad terfynol. Ceidw S4C yr hawl i ddal yn ôl y cyfan neu gyfran o'r hawliau lle nad yw S4C wedi ei bodloni bod unrhyw a/neu bob cais yn cwrdd â'r gofynion neu'n dderbyniol.

Rhyddid Gwybodaeth:

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ('DRG') yn weithredol i S4C. O ganlyniad, os yw unrhyw ymgeisydd yn ystyried fod unrhyw wybodaeth a ddarperir ganddo i S4C yn sgil y gwahoddiad hwn naill ai o natur sensitif yn fasnachol neu yn gyfrinachol, dylai'r ymgeisydd nodi hynny yn benodol, gan roi ei resymau dros ystyried y fath wybodaeth yn wybodaeth sensitif yn ei gais. Mewn achosion o'r fath, lle bo S4C yn derbyn ceisiadau o dan y DRG, asesir y fath wybodaeth yn unol â'r eithriadau sydd wedi eu cynnyws a'u hawdurdodi gan y DRG. Ar y llaw arall, os yw ymgeisydd yn fodlon nad yw unrhyw elfen neu ran o'r wybodaeth a ddarperir ganddo fel rhan o'i gais o natur sensitif, yna gofynnir iddo gadarnhau hynny trwy gynnwys datganiad i'r perwyl hyn yn ei gais. Fel arall, os nad yw'r ymgeisydd wedi nodi yn benodol yn ei gais fod unrhyw wybodaeth a ddarperir ganddo yn sgil y gwahoddiad hwn yn wybodaeth sensitif neu gyfrinachol, yna ystyrir fod yr holl wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn ei gais neu yn sgil y gwahoddiad yn wybodaeth y gall S4C ei ddatgelu a'i rhyddhau i drydydd partï(on) yn unol â'r DRG heb ganiatâd pellach yr ymgeisydd.

Gwarchod Data:

Gall unrhyw ddata personol sy'n cael ei ddarparu i S4C mewn perthynas â chais i adaseinio neu'r broses o adaseinio gael ei brosesu gan S4C er mwyn ei galluogi i ddelio gyda'r cais neu unrhyw adaseiniad a all ddilyn. Dylai cwmniau cynhyrchu sicrhau eu bod wedi cael caniatâd pob unigolyn perthnasol i alluogi S4C i brosesu'r data i'r perwyl hwn. Bydd unrhyw ddata a gyfleir i S4C yn cael ei brosesu yn unol â Pholisi Gwarchod Data S4C.

Cwestiynau:

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn cysylltiad â'r broses neu'r ffurflen gais sydd ynghlwm yna dylid danfon e-bost at S4C at [hawliau@s4c.co.uk] yn y lle cyntaf, a bydd cynrychiolydd ar ran Adran Rhaglenni S4C yn cysylltu â chi. Os yw'r cwestiynau yn rai cyffredinol ac o ddefnydd i unrhyw ddarpar ymgeisydd yna mae'n bosib y bydd yr atebion yn cael eu cyfeirio eu hail gynhyrchu (heb ddatgelu ffynhonnell yr ymholiad) ar safle we S4C, a bydd hyn yn gymorth er mwyn cyflymu'r broses ymholiadau ac er budd yr holl ymgeiswyr. Fodd bynnag mae S4C yn cadw'r hawl i ymateb i ymholiadau unigol heb gynnig eu hymatebion yn gyhoeddus i ddarpar neu ymgeiswyr eraill.